CYNGOR BWRDEISTREF SIROL

RHONDDA CYNON TAF

COUNTY BOROUGH COUNCIL

PWYLLGOR TRWYDDEDU

YN GWEITHREDU YN UNOL Â'I SWYDDOGAETH O DAN DDEDDF TRWYDDEDU 2003

Dolen gyswllt: Marc Jones - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol (Rhif ffôn (07385 401845)

Bydd cyfarfod o'r rhithwir Pwyllgor Trwyddedu, (yn gweithredu yn unol â'i swyddogaeth o dan Ddeddf Trwyddedu 2003) yn cael ar **DYDD MAWRTH, 2AIL TACHWEDD, 2021** am **4.30 PM.**

MAE MODD I AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI.
RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY GYSYLLTU AG UWCHADRAN TRWYDDEDU, TŶ ELÁI, DWYRAIN DINAS ISAF, TREWILIAM, CF40 1NY ERBYN **5PM AR Dydd Gwener, 29 Hydref 2021**, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r

Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN

I'w nodi: Pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

3. COFNODION

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu (yn gweithredu yn unol â'i swyddogaeth o dan ddeddf Trwyddedu 2003) a gynhaliwyd 6 Gorffennaf 2021.

5 - 12

<u>ADRODDIADAU'R CYFARWYDDWR MATERION IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD A GWASANAETHAU CYMUNED</u>

4. ADOLYGIAD O DDEDDF TRWYDDEDU 2003 AC O DDEDDF GAMBLO 2005

13 - 48

5. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:-

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

<u>ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR, IECHYD Y CYHOEDD, AMDDIFFYN A GWASANAETHAU CYMUNEDOL</u>

6. TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A GYHOEDDWYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD:21.06.21 - 17.10.21

(i) Trwyddedau Personol
(ii) Trwyddedau Safle

49 - 72

7. BUSNES BRYS

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

<u>Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</u>

<u>Cylchrediad:-</u>

Aelodau o’r Pwyllgor Trwyddedu:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu
(Y Cynghorydd A Fox a Y Cynghorydd D Williams)
Y Cynghorydd S Bradwick, Y Cynghorydd S Powderhill, Y Cynghorydd T Williams,
Y Cynghorydd S Morgans, Y Cynghorydd P Howe, Y Cynghorydd G Holmes,
Y Cynghorydd L Hooper, Y Cynghorydd A Cox and Y Cynghorydd L Jones

Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau’r Gymuned
Paul Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Rhian Hope, Pennaeth Dros Dro – Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Martyn Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol
Neil Evans, Swyddog Gorfodi Trwyddedu